Mae prosiect trafnidiaeth, sydd wedi ennill gwobrau ac sydd yn chwyldroi trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngorllewin Cymru, wedi dathlu ei ben-blwydd cyntaf ar 24ain Awst.

Gwasanaeth bws sydd ar brawf yw Bwcabus. Y bwriad yw trawsnewid trafnidiaeth yn Nyffryn Teifi. Mae'r prosiect wedi cael bron £500,000 o gyllid cydgyfeirio yr UE drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Defnyddia'r gwasanaeth y dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus leol hyblyg. Cafodd y system ei datblygu gan Brifysgol Morgannwg, a hynny er mwyn bod cymunedau lleol yn gallu cael gwasanaeth lleol sy'n cludo pobl yn syth i'r prif lwybr bysiau, gan eu galluogi i deithio ymhellach.

Ers i wasanaeth Bwcabus gael ei lansio mae mwy na 700 o deithwyr wedi ymgofrestru i gael y gwasanaeth, ac mae'n debygol y bydd wedi darparu 12,750 o siwrneiau erbyn pen-blwydd cyntaf y gwasanaeth - ac mae hynny 37% yn well na'r targed blynyddol.

Mae canlyniadau'r arolygon bodlonrwydd yn dangos bod pobl yn defnyddio'r Bwcabus er mwyn cael mynediad i ystod eang o wasanaethau, megis gofal iechyd, ac i gyrraedd y gwaith, a'u bod wedi dechrau teithio i leoliadau ychwanegol nad ydynt ar lwybrau bysiau confensiynol.

Yn ôl Mr a Mrs Pearce o Bentre-cwrt sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd, "Ar y dechrau roedd gennym ni ein hamheuon ynghylch cynnal gwasanaeth mor flaengar, ond rydym wrth ein boddau fod y gwasanaeth mor effeithiol a llwyddiannus. O'n safbwynt ni'n dau, nid oes rhaid inni mwyach gerdded rhyw filltir ym mhob tywydd i gyrraedd y llwybr bysiau pan fyddwn am gwrdd â'r bws o Gaerfyrddin i Aberteifi er mwyn mynd i gael cwmni ffrindiau neu siopa. Mae Bwcabus nid yn unig yn ein cludo i'r man cyswllt, mae hefyd yn ein cludo ni'n ôl i'n cartref. Mae'n wasanaeth rhagorol o ddrws i ddrws. Hefyd mae gwasanaeth Bwcabus yn golygu ein bod yn gallu mynd yn gynt ac yn fwy hwylus i fannau megis Llanelli, Llandeilo neu Abertawe, heb sôn am Gastellnewydd Emlyn ac Aberteifi i'r cyfeiriad arall, heb orfod defnyddio ein car - gan leihau ein costau ynghyd â lleihau ein hôl troed carbon. I Bwcabus y mae'r diolch am hyn!"

Mae gwasanaeth Bwcabus wedi llwyddo i gyflawni ei holl amcanion, a rhagor. Gan fod y gwasanaeth mor boblogaidd gan bobl yng ngogledd Sir Gaerfyrddin ac yn ne Ceredigion, mae'r galw wedi cynyddu 45% yn ystod y flwyddyn gyntaf. A hynny ar adeg pan fo gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwledig yn colli tir yn gyffredinol. Yr Athro Stuart Cole oedd yn gyfrifol am y syniad gwreiddiol, a dywedodd:

"Deilliodd y cysyniad blaengar hwn o'r her a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ganolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg bum mlynedd yn ôl. 'Sut rydym ni fel Llywodraeth yn gallu darparu gwell gwasanaeth bysiau i deithwyr yng nghefn gwlad?' Mae'r amcan hwn yn gyson â pholisi'r Llywodraeth o ran rhoi tocynnau teithio rhad i fwy o deithwyr dros 60 oed.

Nid ar chwarae bach oedd llunio'r system hynod soffistigedig hon. Ond yn sgil gwaith ein tîm datblygu arbenigol yng Nghanolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru law yn llaw â Chynghorau Sir Caerfyrddin a Cheredigion ynghyd â'r cwmnïau bysiau a Traveline, mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n dda o'r cychwyn cyntaf. Bellach rydym yn rhoi sylw i helaethu gwasanaeth Bwcabus.

Mae Prifysgol Morgannwg wedi dangos bod modd i'r llywodraeth, y byd academaidd, a diwydiant gydweithio er mwyn cynnig a gweithredu syniadau radical sy'n datrys problemau - boed yn ymateb i gwestiynau anodd ynghylch polisi neu'n atebion ymarferol blaengar."

Mae prosiect Bwcabus wedi ennill dwy wobr bwysig eisoes. Ar 15fed Gorffennaf enillodd prosiect Bwcabus y brif wobr yng nghategori'r 'Prosiect Trafnidiaeth Mwyaf Blaengar' yn y Gwobrau Trafnidiaeth Cenedlaethol ym Manceinion, gan ddod i'r brig yn erbyn mentrau rhanbarthol a chenedlaethol o bob cwr o Brydain.

Mae'r llwyddiant hwn yn dilyn gwobr arall y bu i'r prosiect ei hennill yn gynharach yn y flwyddyn gan Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru. Enillodd prosiect Bwcabus gategori'r Bartneriaeth Orau gan gydnabod gwaith Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion, Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru Prifysgol Morgannwg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Traveline Cymru, y Brodyr Richards a Morris Travel.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Kelly Phillips, Cydgysylltydd Bwcabus, drwy ffonio 01267 228296.